

**BWRDD
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS
GWYNEDD AC
YNYS MÔN**



Dydd Mercher, 17 Mawrth 2021

14:00 – 16:30

Cyfarfod Zoom

Aelodau presennol:	
Enw	Sefydliad
Dilwyn Williams (DOW)	Cyngor Gwynedd
Cyng. Dyfrig Siencyn (DS)	Cyngor Gwynedd
Annwen Morgan (AM)	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Llinos Medi Huws (LIMH)	Cyngor Sir Ynys Môn
Shan Morris (SM)	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffion Johnstone (FfJ)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Justin Hanson (JH)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Dafydd Thomas (DT)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Nia Willams (NW)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Sian Purcell (SP)	Medrwn Môn
Emyr Williams (EW)	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Enlli Thomas (ET)	Prifysgol Bangor
Ffrancon Williams (FFW)	Adra
Gillian Jones (GJ)	Gwasanaeth Prawf
Aled Jones-Griffith (AJG)	Grŵp Llandrillo Menai

Yn mynychu:	
Nonn Hughes (NH)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn
Sophie Ann Hughes (SAH)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn
Dewi Wyn Jones (DWJ)	Cyngor Gwynedd
Bethan Mair Evans (cyfieithu)	Cyngor Gwynedd
Elin Wynne (cyfieithu)	Cyngor Gwynedd
Arwel Jones (eitem 4)	Cyngor Sir Ynys Môn
Fôn Roberts (eitem 5)	Cyngor Sir Ynys Môn

Ymddiheuriadau:	
Bethan Williams	Mantell Gwynedd
Jo Whitehead	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Yr Athro Andrew Edwards	Prifysgol Bangor
Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru

Pwyntiau Gweithredu

1. Dilwyn Williams ac Annwen Morgan i rannu canfyddiadau eu gwaith ar eu cynlluniau twristiaeth gynaliadwy gyda'r BGC pan yn briodol. Cytunwyd i DW/AM ymgynghori gyda rhai sefydliadau o'r BGC i gasglu tystiolaeth o'r pwysau ychwanegol grëwyd gan dwristiaeth dros fisoedd yr haf.
2. Tîm Cefnogi BGC i gydweithio gyda'r is-grwpiau er mwyn llunio Adroddiad Blynyddol y BGC
3. Nonn Hughes a Nia Williams i drafod sut all y datganiadau ardal fwydo mewn i'r asesiadau llesiant.
4. Aled Jones Griffith i rannu ffigurau tlodi digidol er mwyn eu cylchredeg i aelodau'r BGC
5. Dilwyn Williams ac Annwen Morgan i ystyried sut all y cyrff eraill eu helpu ar yr agenda tlodi
6. Annwen Morgan i gysylltu gyda Shan Morris i drafod mewnbwn posib y Gwasanaeth Tân yn y maes tlodi
7. Aled Jones Griffith i weithio gyda'r is-grŵp iaith Gymraeg er mwyn cyflwyno cylch gorchwyl i gyfarfod nesaf y BGC
8. Emyr Williams a Nia Williams i drafod sut i roi ystyriaeth i fywyd gwyllt fel rhan o waith yr is-grŵp Newid Hinsawdd yn symud ymlaen
9. Nia Williams/Justin Hanson i ddod a strategaeth yr is-grŵp Newid Hinsawdd yn ôl i gyfarfod nesaf y BGC ym mis Mehefin, gyda gwybodaeth am y gwersi sydd wedi eu dysgu o Fairbourne ac o beilot Pwllheli.
10. Aelodau'r BGC angen amser i roi ystyriaeth a sylwadaeth ar cynllun gweithredu yr is-grŵp newid hinsawdd. Pob aelod i anfon eu sylwadau ymlaen cyn y cyfarfod nesaf.
11. Ffion Johnstone i ystyried pa gefnogaeth sydd ei angen gan weddill yr aelodau mewn perthynas a symud rhwystrau ar gyfer yr is-grŵp iechyd a gofal
12. Ffion Johnstone i ystyried a oes angen addasu'r cylch gorchwyl a'r aelodaeth ar gyfer yr is-grŵp iechyd a gofal o ystyried y ffaith fod y grŵp wedi bod yn fwy gweithredol.
13. Yr is-grŵp iechyd a gofal i ymateb i'r cais o ddangos sut mae gwaith yr is-grŵp wedi ymateb i'r briff gwreiddiol a roddwyd iddynt gan y BGC.
14. Holl aelodau'r BGC i roi gwybod i Nonn am unrhyw waith ymgysylltu sydd wedi ei raglennu ganddynt yn y 6-12 mis nesaf.
15. Tîm cefnogi'r BGC i gydweithio efo'r Cynghorau, ar eu trefniadau cychwynnol ar gyfer cynnal yr asesiadau llesiant.

Cofnod o'r drafodaeth

Rhif Eitem	Nodiadau	Pwy?	Erbyn pryd?
1	Croeso ac Ymddiheuriadau Croesawyd yr holl fynychwyr i'r cyfarfod a derbyniwyd yr ymddiheuriadau a nodir uchod.		

2	Cylch Gorchwyl - dim materion yn codi		
3	<p>Cofnodion y cyfarfod diwethaf Derbyniwyd y cofnodion fel adlewyrchiad teg o'r drafodaeth.</p> <p>Cafwyd diweddariad ar y pwyntiau gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Anfon llythyr at Llywodraeth Cymru i nodi pryder y Bwrdd am faterion llesiant yn y maes tai, ac effaith hir dymor y mater ar lesiant. Emyr Williams a Nonn Hughes i baratoi'r llythyr at Lywodraeth Cymru i gefnogi safbwyntiau'r ddau Gyngor ar y mater ail-gartrefi. - <i>y llythyr yma wedi'i anfon, ac mae copi er gwybodaeth ym mhapurau'r cyfarfod hwn.</i> • Dilwyn Williams ac Annwen Morgan i rannu canfyddiadau eu gwaith ar eu cynlluniau twristiaeth gynaliadwy gyda'r BGC pan yn briodol. Cytunwyd i DW/AM ymgynghori gyda rhai sefydliadau o'r BGC i gasglu tystiolaeth o'r pwysau ychwanegol grëwyd gan dwristiaeth dros fisoedd yr haf. - <i>hyn heb ddigwydd eto ond bydd yn parhau'n weithrediad</i> • Arweinyddion yr is-grwpiau i adrodd ar y canlynol yng nghyfarfod nesaf y BGC: beth maent wedi'i gyflawni a chadarnhau sut maent wedi ymateb i'r briff gwreiddiol a roddwyd iddynt gan y BGC – <i>hyn yn cael ei gyfarch fel rhan o adroddiadau'r is-grwpiau. Bydd tîm cefnogi'r BGC yn cydweithio â nhw ar yr un fformat ar gyfer llunio Adroddiad Blynyddol y Bwrdd.</i> • Ffrancon Williams i gysylltu gyda Grŵp Llandrillo Menai i drafod dulliau gwahanol o osod tir – <i>hyn wedi digwydd ac yn rhan o ddiweddariad gan FfW am yr is-grŵp cartrefi.</i> • Sian Williams i roi cyflwyniad yn ystod cyfarfod nesaf y BGC ar y rhaglenni gwaith sy'n deillio o'r datganiadau ardal. Nonn Hughes i gynnal trafodaeth gyda Sian Williams er mwyn ystyried sut y gall y wybodaeth yma fwydo i mewn i'r asesiadau llesiant. - <i>cynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru yn bresennol i roi'r cyflwyniad heddiw. Bydd tîm cefnogi'r BGC yn parhau i weithio gyda nhw ar yr asesiadau llesiant yn dilyn y cyfarfod.</i> • Nonn Hughes ac Emyr Williams i drafod arweinyddiaeth i'r is-grŵp iaith - <i>hyn yn cael ei gyfarch yn adroddiad cynnydd yr is-grŵp iaith Gymraeg.</i> • Nonn Hughes a Sioned Rees i drafod ymrwymiad LIC i'r Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Cyhoeddus. Pob sefydliad hefyd i gysylltu gyda Nonn os oes ganddynt ddiddordeb mewn clywed mwy am y rhaglen - <i>trafodaeth rhwng NH a SR wedi</i> 	<p>DOW/AM</p> <p>Tîm cefnogi'r BGC</p> <p>CNC / tîm cefnogi'r BGC</p>	

	<p><i>ei chynnal ond ni fynegwyd unrhyw ddi-ddordeb gan sefydliadau'r Bwrdd eleni. Bydd ystyriaeth pellach i hyn eto'r flwyddyn nesaf.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Emyr Williams i awdurdodi ar ran y BGC- cais cynllun pathfinders gan Gyngor Sir Ynys Môn. - <i>hyn wedi digwydd</i> <p>Yn dilyn cais mewn cyfarfod diweddar o'r BGC i AJG ddiweddarau'r bwrdd ar faterion tlodi digidol, fe gadarnhaodd fod y pandemig wedi amlygu ein bod mewn ardal lle mae tlodi digidol difrifol, a nododd fod yr awdurdodau wedi bod yn gweithio gydag ysgolion ar waith canmoladwy iawn. Nododd hefyd fod datblygiadau strategol ar y gweill yn y ddwy awdurdod i fynd i'r afael ag o ond fod yr argyfwng presennol wedi amlygu pa mor sylweddol ddfreintiedig ydi rhai o'n plant. Bydd AJG yn rhannu ffigurau gyda'r tîm cefnogi BGC i gael eu rhannu gyda'r cofnodion yma. Nododd EW ei bod yn bwysig fod gwybodaeth ynghylch offer caled a chysylltedd y we gennym i fwydo mewn i'r asesiadau llesiant.</p> <p>Nododd AM na dim ond crafu'r wyneb ydym gyda'r gwaith ar dlodi digidol ymysg plant a'i fod yn bodoli'n ymysg bobl o bob oed. Gan fod yr argyfwng wedi ein gwthio i fod yn gwneud llawer mwy dros y we, mae nifer yn cael eu gadael allan ac mae angen darn o waith i edrych ar y mater ymysg oedolion a phobl hŷn hefyd.</p>	AJG i rannu ffigurau	cgaph
4	<p>Cyflwyniad gan Gyngor Sir Ynys Môn ar eu cynlluniau gwaith sy'n gysylltiedig â'r flaenoriaeth tlodi</p> <p>Cafwyd cyflwyniad gan Arwel Jones ar yr hyn sy'n digwydd yn Ynys Môn.</p> <p>Nododd FR fod pethau'n symud ymlaen yn dda a bod y ffordd rydym yn defnyddio grantiau yn ein galluogi i fod fwy creadigol. Pan fo tanwariant mae'r cyngor wedi gallu cefnogi'r trydydd sector gan mai nhw sydd â'r wybodaeth ar gyfer gwneud llawer o'r gwaith. Mae sefydliad y Bwrdd Ataliol Corfforaethol yn gyffrous, a phan fydd Swyddog Ymchwil Trechu Tlodi wedi'i apwyntio byddwn yn edrych ar allbynnau'r bwrdd ymhob cyfarfod. Nodwyd nad yw'n debygol y gallent ddatrys tlodi yn ariannol ond yn gobeithio medru lliniaru effeithiau tlodi a sicrhau fod plant yn cael yr un cyfleoedd a phlant eraill beth bynnag fo'u sefyllfaoedd o dlodi. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer oedolion a phobl hŷn hefyd.</p> <p>Nododd DOW fod Gwynedd ar drywydd tebyg iawn i Fôn a'i fod yn teimlo fod y ddau awdurdod wedi gafael yn yr agenda o ddifri. Holodd a oes unrhyw bartner arall yn y</p>		

	<p>BGC yn teimlo eu bod yn gallu ychwanegu at yr hyn rydym ni'n ei wneud yn barod.</p> <p>Nododd EW y byddai cyrff llai o bosib yn fwy tebygol o fod yn aros am wahoddiad i gyfrannu ac y dylid annog cynghorau i ystyried beth all eraill ei wneud a'u gwahodd.</p> <p>Holodd Shan Morris a oes rhywbeth all y Gwasanaeth Tân ei wneud ac annog fod yr awdurdodau yn dod i siarad â nhw a'u bod yn hapus iawn i helpu ac wedi gwneud llawer o waith gyda ieuencid, ysgolion a phrosiectau Phoenix. Cadarnhaodd AM y byddai yn cysylltu gyda SM wedi ystyriaeth pellach.</p> <p>Nododd SP y byddai Medrwn Môn yn croesawu cael eu cynnwys yn y cynlluniau gyda'r cyngor a'u bod yn falch o allu cyfrannu at yr haen is o gefnogi bobl yn eu cymunedau. Maent wedi dechrau gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân i adnabod bobl sy'n fregus e.e. bobl sy'n hordio neu phobl ifanc sydd eisiau gwneud crefftau tân ac ati. Nodwyd fod nifer o bethau cymunedol fedren nhw ei wneud i gefnogi ac i atal i bobl syrthio mewn i'r haenau uwch a gyfeiriwyd atynt.</p> <p>Nodwyd gan JH y byddai gan CNC ddiddordeb yn archwilio opsiynau iddynt helpu hefyd, yn benodol yn nhermau ehangu cydraddoldeb profiadau i mewn i bobl sy'n byw mewn tldi.</p>	<p>Awdurodau Lleol i ystyried</p> <p>AM/SM i drafod</p>	
<p>5</p>	<p>Adroddiadau ar flaenoriaethau'r Cynllun Llesiant</p> <p>5.1 Cartrefi ar gyfer pobl lleol Cyflwynodd FfW ei adroddiad cynnydd, gan nodi fod y gwaith o rannu modelau ariannol wedi bod yn fuddiol iawn ac yn golygu ein bod mewn llai o berygl o golli unrhyw safleoedd a chyffleon i'r dyfodol. Y teimlad ymysg yr is-grŵp ydi bod eu gwaith yn dirwyn i ben, ac felly y ffocws ar hyn o bryd ydi i ddeall y sefyllfa gyda'r safleoedd dan sylw a ystyried a oes modd cyd-gaffael.</p> <p>Tynnodd sylw at y ceisiadau llwyddiannus ar gyfer grant IHP4 (Rhaglen Tai Arloesol) fydd yn tynnu 139 o unedau tai arloesol i Wynedd a Môn.</p> <p>Nododd EW ei fod wedi mynychu cyfarfod diweddar i ystyried pam fod diffyg datblygu ar safleoedd bach yng nghefn gwlad ac mae'n debyg fod problemau'n codi wrth geisio cael adeiladwyr i ddatblygu safleoedd efo 4 neu 5 o dai. Nodwyd efallai fod hyn yn rhywbeth i'r is-grŵp ei ystyried i'r dyfodol.</p> <p>5.2 Yr Iaith Gymraeg</p>		

	<p>Cyflwynwyd papur yr is-grŵp Iaith Gymraeg gan SAH a cymeradwywyd AJG fel arweinydd newydd yr is-grŵp Iaith Gymraeg.</p> <p>Nodwyd fod y BGC yn cytuno gyda'r awgrym i ddiffinio sgôp yr is-grŵp yn glir, ac i AJG ddod â chylch gorchwyl er sylw'r BGC i'r cyfarfod nesaf.</p> <p>Dyma rai meysydd fyddai'r BGC yn dymuno gweld yr is-grŵp yn eu hystyried.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Technoleg Gwybodaeth – hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, sicrhau nad yw TG yn medru cael ei ddefnyddio fel esgus i beidio defnyddio'r Gymraeg • Fframwaith BwrCasu – wedi dyddio ers gadael yr Undeb Ewropeaidd. Cyfle da i ddod a'r Gymraeg i mewn iddo. • Defnydd o apiau – nodwyd fod Medrwn Môn â nifer o brosiectau ynghylch annog y defnydd o apiau e.e. er mwyn gwneud apwyntiadau meddygol. Apiau yn costio llawer i'w cyfieithu ac mae'n hollbwysig annog defnydd o'r fersiynau Cymraeg. • Sefydliad Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (CBCau) – nodwyd fod pryder ynghylch gollyngiad mewn disgwyliadau ieithyddol wrth sefydlu'r rhain. Cydnabuwyd mai mater i'r dyfodol ydi hyn ond fod angen cadw llygad arno. • Nodwyd mai edrych ar yr hyn sydd tu hwnt i'r disgwyliad cyfreithiol sydd ar sefydliadau a ddymunir gan yr is-grŵp. Mae hyn yn cynnwys annog defnydd o'r Gymraeg gan unigolion sy'n medru'r Gymraeg ond sy'n dewis defnyddio'r Saesneg wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus. Nodwyd mai bwriad y prosiect derbynfeydd oedd i edrych ar hyn mewn derbynfeydd yn benodol a bod y prosiect yma wedi'i groesawu ond bod argyfwng Covid-19 yn golygu fod derbynfeydd yn wahanol bellach. <p>Nododd AJG y byddai'n rhaid i'r is-grŵp flaenoriaethu prosiectau ac osgoi gweithio mewn sawl maes ar unwaith er mwyn gwneud y defnydd gorau o unrhyw adnoddau prin sydd ar gael.</p> <p>5.3 Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau Derbyniwyd cyflwyniad gan DT a NW, a fe gyflwynwyd allbynau'r gweithdai sydd wedi eu cynnal gan yr is-grŵp yn ogystal â'r strategaeth arfaethedig i ganolbwyntio ar dair ardal benodol yng Ngwynedd a Môn.</p>	AJG/SAH	
--	--	---------	--

	<p>Mynegodd y ddau awdurdod lleol fod angen iddynt ddeall mwy gan gynrychiolwyr eu sefydliadau sydd ar yr is-grŵp cyn cymeradwyo'r strategaeth. Nododd DOW hefyd nad oes na rym gan gymunedau ac felly maent yn edrych atom ni i'w helpu ac oherwydd hynny, mae angen bod yn ofalus ynghylch y modd yr ydym yn geirio'r weledigaeth.</p> <p>Nododd EW fod bywyd gwyllt yn rhan greiddiol o'r argyfwng hinsawdd sydd wedi ei ddatgan ac felly fod angen ystyried hyn. EW i drafod gyda NW.</p> <p>Cytunwyd i ail-ymweld â'r eitem yma, gan gynnwys y gwersi sydd wedi eu dysgu yn Fairbourne ac fel rhan o beilot Pwllheli, yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>5.4 Iechyd a Gofal</p> <p>Nodwyd fod argyfwng Covid-19 ac yn benodol yr ail don wedi golygu fod y grŵp wedi bod yn fwy gweithredol na strategol ond mae na wersi buddiol i'w dysgu.</p> <p>Cafwyd diweddariad ar yr is-grŵp Iechyd Meddwl - nodwyd fod y grŵp integredig wedi bod yn trio tynnu pobl at ei gilydd ond eu bod wedi derbyn adroddiadau fod bwriad i beilota'r cynllun Gallaf I (ICAN) yn y meddygfeydd. Mae'r grŵp wedi cwestiynu ai dyma'r lle iawn gan mai y pwrpas y gwasanaeth ydi i osgoi gorfod cyfeirio unigolion at wasanaethau statudol. Mae'r grŵp yn hytrach eisiau edrych ar eu tynnu mewn l'r Timau Adnoddau Cymunedol, Medrwn Môn a Mantell Gwynedd. Nodwyd fod sawl mater i'w uchafu i Theresa Owen sy'n arwain ar y maes iechyd meddwl yn y BIPBC er mwyn cydlynu a dod a phopeth at ei gilydd.</p> <p>Cafwyd diweddariad ar y gwaith cymunedol hefyd, gan nodi eu bod yn edrych ar un drws ffrynt, rhyddhau o'r ysbyty ac ar fodel gofal cartref i Wynedd. Nodwyd fod angen ailystyried mewn perthynas â gwaith therapi galwedigaethol.</p> <p>Nododd fod gwaith y grŵp plant wedi'i atal oherwydd fod cyfnod yr argyfwng wedi tarfu ar y gallu i recriwtio a defnyddio staff yn hyblyg fel yr oeddent wedi ei fwriadu. Nodwyd fodd bynnag eu bod wedi defnyddio elfen o'r arian i gynnig hyfforddiant sylweddol ar draws staff yn Gwynedd, Môn ac Iechyd. Nododd hefyd eu bod wedi cynnig arian i'r drydedd sector edrych ar sut maen nhw'n mynd i helpu gofalu am les ac iechyd meddwl a sut mae pobl yn ymdopi efo covid. Nodwyd eu bod wedi medru addasu'r cynllun yn sydyn a'i gytuno gyda'r Llywodraeth. Mae gwaith wedi ailgychwyn bellach i roi tîm mewn lle a cadarnhawyd nad yw'r argyfwng wedi golygu nad ydynt wedi gweithio gyda</p>	<p>EW/NW</p> <p>NW/JH</p>	
--	--	---------------------------	--

	<p>plant, ond yn hytrach eu bod wedi ei wneud o fewn yr adnoddau sydd eisoes ar gael.</p> <p>Cyfeiriodd FfJ yn ôl at y drafodaeth gynharach ar y Gymraeg, a nododd bod gwaith yn mynd yn ei flaen i ystyried sut allwn ni gael y gwasanaeth iechyd i'r un lefel o allu darparu a'r awdurdodau lleol.</p> <p>I grynhoi, nodwyd fod gwaith da yn digwydd ond nad yw'n gyson, ai fod yn hytrach mewn pocedi ac mae angen l'r grŵp edrych ar hynny. Nodwyd fod llai o arian ar gael i gario mlaen hwyluso'r rhaglen yma dros y flwyddyn nesaf ac mae'r grŵp wedi cytuno i'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol ddod ynghyd i adolygu lle maen nhw arni, beth yw trefniadau gweithio'r wahanol ffrydiau, a oes gwersi i'w dysgu o'r argyfwng a beth yw'r mesuryddion sydd ei angen. Mae cyfarfod wedi ei drefnu ar 25ain o Fawrth.</p> <p>Nododd EW mai rôl y BGC yw i gynorthwyo'r grŵp i symud rhwystrau. Nodwyd y byddent yn darparu crynodeb o'r gefnogaeth sydd ei angen ar ôl y cyfarfod ar 25 Mawrth.</p> <p>Nododd DOW ei werthfawrogiad am yr adroddiad ond nododd fod risg weithiau i golli golwg ar yr hyn oedden ni'n trio ei gyflawni'n wreiddiol. Byddai'n gwerthfawrogi gwybod i ba raddau rydym wedi cyrraedd lle'r oeddem yn gobeithio'i gyrraedd.</p> <p>Cododd LIM y pwynt nad yw'r gwleidyddion o Wynedd na Môn wedi bod yn gallu mynychu oherwydd fod yr is-grŵp wedi bod yn edrych ar faterion gweithredol dros y cyfnod diwethaf a cwestiynodd a yw'r cyfeiriad yr oeddem yn meddwl mynd yn parhau i fod yr un cyfeiriad bellach? Cadarnhaodd FfJ y bydd yn mynd ar ôl y pwynt yna hefyd yn y cyfarfod ar 25 Mawrth er mwyn ystyried a oes angen ailedrych ar gylch gorchwyl ac aelodaeth y grŵp.</p>	<p>FfJ</p> <p>FfJ</p>	
<p>6</p>	<p>Asesiadau Llesiant</p> <p>Nododd EW fod angen cytuno ar sut i gael Cynllun Llesiant, a chytuno sut i wneud hyn ar y cyd.</p> <p>6.1 Asesiadau Llesiant Gwynedd a Môn</p> <p>Cyflwynodd NH ei hadroddiad gan nodi fod angen arweiniad ar sut i gydweithio efo partneriaid er mwyn gwneud asesiad o gyflwr Llesiant Gwynedd a Môn.</p> <p>Yn y blynyddoedd diweddar mae'r meini prawf ar gyfer y grant BGCau rhanbarthol wedi'i gwneud hi'n anodd i wneud defnydd llawn o'r arian ond nodwyd fod bwriad ei ddefnyddio at ddiben helpu gyda'r asesiadau Llesiant eleni. Bydd hyn yn cynnwys gwaith ymchwil mewn partneriaeth</p>		

gyda Prifysgol Glyndwr, ac mae'r model yn caniatáu i sefydliadau eraill gael eu cynnwys megis Prifysgol Bangor.

Mae grant rhanbarthol i bwrpas cefnogi'r byrddau a'r meini prawf wedi gwneud hi'n anodd i wneud defnydd llawn yn y gorffennol. Nodwyd y bwriadu o'i ddefnyddio i'n helpu gyda gwaith ymchwil ac ymgynghoriadau ar gyfer yr asesiadau llesiant eleni. Mewn perthynas â'r gwaith rhanbarthol, mae cynnig i weithio efo Prifysgol Glyndwr. Model sy'n caniatáu i ni gynnwys sefydliadau eraill fel y Brifysgol. Bwriedir hefyd cydweithio gyda thîm ymchwil Cyngor Gwynedd, gan eu bod eisoes wedi cefnogi'r BGC gyda'r asesiadau llesiant cyntaf. Roedd cefnogaeth mewn egwyddor i'r defnydd o'r grant rhanbarthol.

Nodwyd fod tîm cefnogi'r BGC yn cynnig ein bod yn cyhoeddi asesiadau drafft erbyn mis Hydref ac yn gwneud defnydd o'r arian grant i bwrpas cynnal y gwaith ymchwil, a gofynnwyd am gytundeb y Bwrdd.

Nododd AM ei bod yn cytuno â'r amserlen a'r egwyddorion ac yn hapus i drafod ar sut i fynd ati i ymgynghori ac ymgysylltu â chymunedau Môn ymhellach. Nododd EW ac AM bod angen fframwaith cyffredin i Wunedd a Môn.

Nododd DOW fod Cyngor Gwynedd yn gweithio tuag at greu cynlluniau adfywio ar gyfer ardaloedd naturiol sydd wedi eu hadnabod y tu mewn i'r sir. Hanfod hynny fydd cynnal deialog i weld beth sydd yn gwneud i'r ardal fod yn llai perffaith, a be hoffai nhw wneud i'w gael yn agosach at berffeithrwydd. Ychwanegodd ei fod yn anghytuno fod rhaid cael cysondeb. Er bod rhaid cael hynny er diben Cynllun Llesiant, mae'n bwysig gwneud yr hyn sy'n bwysig i'n trigolion ni. Nododd ei fod yn bwriadu cynnwys NH yn y gwaith.

Nododd EW ei fod yn hanfodol fod y partneriaid yn siarad gyda'i gilydd ond hefyd yn cadw mewn cyswllt gyda NH i holi a yw'r wybodaeth a gesglir o help i'r BGC efo'r asesiadau llesiant.

Nododd JH fod angen rhywfaint o gysondeb yn yr hyn yr ydym yn ei ystyried. Nododd fod CNC wedi gwneud llawer o ymgysylltu fel rhan o lunio Datganiadau Ardal, ac felly mae'r rhain i fod i fwydo mewn l'r asesiadau llesiant. Nododd ei fod yn bwysig i NH a NW gydweithio ac awgrymodd y gallai uned ganolog fod o fudd i gyflawni'r gwaith yma.

Nododd SP fod Medrwn Môn wedi bod yn trin a thrafod gyda chymunedau ers ryw ddwy flynedd a bod yr wybodaeth yna ar gael. Nododd fod y cymunedau'n teimlo'n wan ac eisiau'r llais a'r caniatâd i wneud pethau dros eu hunain. Roedd yn amlwg fod prosesau'n mygu gallu'r cymunedau i greu ac i wneud pethau dros eu hunain. Nododd ei fod yn bwysig ystyried yr hyn mae'r cymunedau

	<p>wedi gallu ei wneud dros eu hunain drwy gyfnod yr argyfwng a sut allwn ddal ein gafael ac adeiladu ar hynny i'r dyfodol.</p> <p>Cadarnhawyd fod y BGC yn gytûn ar yr amserlen arfaethedig, y defnydd o'r arian grant rhanbarthol, a'r egwyddor i aelodau'r BGC rannu gyda thîm cefnogi'r BGC unrhyw waith sydd wedi ymgysylltu sydd wedi eu cynllunio ganddynt ar gyfer y 6-12 mis nesaf.</p> <p>6.2 Adrodd ar y bwriad o Ddatblygu Fframwaith Adfywio ar gyfer Gwynedd</p> <p>Nodwyd fod y papur hwn wedi'i gyflwyno fel rhan o'r drafodaeth uchod.</p>	Pawb	
7	<p>Heriau a Chyfleon</p> <p>Grantiau - Nododd SP na all ddeall pam na all y Llywodraeth rannu'r grantiau mewn ffordd hyblyg/defnyddiol i'n galluogi i weithio mewn partneriaeth yn fwy hyblyg ac o gwmpas yr egwyddorion llesiant. Gofynnodd a oes cyfle i drafod pooled budgets a rhannu adnoddau etc, gan fod argyfwng Covid-19 wedi gweld pawb yn cydweithio i wneud i pethau ddigwydd ond ei bod yn gweld pethau'n mynd yn ôl rwan.</p> <p>Nododd EW fod grantiau funud olaf gyda disgwyliadau uchel yn broblem yn y sector gyhoeddus hefyd a bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi rhannu adroddiad ar y Ddeddf Llesiant sy'n rhoi rhywfaint o sylw ynghylch cyllidebau yma.</p> <p>Nododd DS ei fod yn gytûn fod nifer o grantiau'n cael eu cynnig sydd â chanllawiau nad ydynt yn addas i ni ac y byddai derbyn yr arian fel rhan o gyllidebau'r awdurdodau lleol yn hytrach na fel grantiau yn ddymunol iawn i nifer o siroedd.</p>		
8	<p>Sylwadau a Chwestiynau o Bwyllgorau Craffu</p> <p>Nodwyd mai un cyfarfod craffu oedd wedi ei gynnal ers cyfarfod diwethaf y BGC, sef cyfarfod o bwyllgor craffu Ynys Môn ar 11eg Fawrth. Y cwestiynau a gyflwynwyd ganddynt oedd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Pa ddeilliannau amlwg sydd i'r ffrydiau gwaith y Bwrdd ar Ynys Môn ers yr adroddiad cynnydd diwethaf? 2. Pa rôl fydd gan y Bwrdd yn y cyfnod adfer yn dilyn y pandemig? 3. Sut mae'r Bwrdd yn sicrhau gwerth gorau am arian, a chanlyniadau gorau i drigolion Ynys Môn? 4. A yw'r Cynllun Llesiant yn darparu cyfleoedd i fyfyrion ac adolygu p'un ai yw gweithredoedd yn arwain at yr 		

	<p>effaith a ddymunnir, neu a oes angen newid dull o weithredu?</p> <p>Pwrpas rhannu'r cwestiynau gyda'r Bwrdd yw cyflwyno meysydd diddordeb mae'r pwyllgorau yn eu hymchwilio i ganfod os yw gweithgareddau'r BGC yn cyfrannu at gyflawni eu hamcanion llesiant.</p>		
9	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>Nodwyd fod yr ohebiaeth isod wedi ei rannu er gwybodaeth i'r partneriaid.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llythyr y BGC at PW Cymru pâr Argyfwng Tai Gwynedd a Môn • Gwybodaeth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol pâr technoleg Evecetek • Rheoli'r perygl o lifogydd ym Mhorthmadog, Tremadog a dalgylch afon Glaslyn – llythyr gan CNC 		